

Wedi darfod?

Mae *Deddf Adsefydlu Troseddwy* 1974 yn rhoi hawl i bobl sydd ag euogfarnau, rhybuddiadau, ceryddon a rhybuddion terfynol sydd wedi darfod beidio â datgelu'r rhain wrth wneud cais am y mwyafrif o swyddi, cyrsiau, yswiriant neu ddibenion eraill.

Cafodd newidiadau pwysig i leihau cyfnodau adsefydlu o dan y *Ddeddf* eu rhoi ar waith ar 10 Mawrth 2014. Mae'r tabl isod yn dangos faint o amser sy'n mynd heibio cyn bod y prif ddedfrydau presennol wedi darfod.

Y cyfnodau adsefydlu ar gyfer dedfrydau sydd heb gyfnodau byffer

Dedfryd/gwarediad	Y cyfnod adsefydlu i oedolion (18 oed neu drosodd adeg yr euogfarn, neu adeg gweinyddu'r gwarediad)	Y cyfnod adsefydlu i bobl ifanc (llai na 18 oed adeg yr euogfarn, neu adeg gweinyddu'r gwarediad)
Rhyddhad diamod	Wedi darfod ar unwaith	Wedi darfod ar unwaith
Rhwymo i gadw'r heddwch	Ar ddiwedd y gorchymyn	Ar ddiwedd y gorchymyn
Gorchymyn digolledu	Ar ôl ei dalu'n llawn	Ar ôl ei dalu'n llawn
Rhybuddiad amodol/ rhybuddiad amodol ieuencid	3 mis neu pan ddaw'r rhybuddiad i ben os yw hynny'n gynt	3 mis neu pan ddaw'r rhybuddiad i ben os yw hynny'n gynt
Gorchymyn rhyddhad amodol	Ar ddiwedd y gorchymyn	Ar ddiwedd y gorchymyn
Ardystiadau (a roddir gan lys)	5 mlynedd	2½ flynedd
Dirwy	1 flwyddyn	6 mis
Gorchymyn ysbyty (gyda chyfyngiad neu hebdo)	Pan ddaw effaith y gorchymyn i ben	Pan ddaw effaith y gorchymyn i ben
Gorchymyn atgyfeirio	Ar ddiwedd y gorchymyn	Ar ddiwedd y gorchymyn
Gorchymyn perthnasol	Pan ddaw effaith y gorchymyn i ben	Pan ddaw effaith y gorchymyn i ben
Gorchymyn iawn	Wedi darfod ar unwaith	Wedi darfod ar unwaith
Rhybuddiad syml/rhybuddiad ieuencid	Wedi darfod ar unwaith	Wedi darfod ar unwaith

Y cyfnodau adsefydlu ar gyfer dedfrydau sydd â chyfnodau byffer

Gorchymyn cymunedol neu orchymyn adsefydlu ieuencid	Cyfanswm hyd y gorchymyn plws 1 flwyddyn	Cyfanswm hyd y gorchymyn plws 6 mis
Dedfryd o garchar neu gadwad mewn sefydliad troseddwy ifanc am 6 mis neu lai	Cyfanswm hyd y ddedfryd (gan gynnwys y cyfnod ar drwydded) plws 2 flynedd	Cyfanswm hyd y ddedfryd (gan gynnwys y cyfnod ar drwydded) plws 18 mis
Dedfryd o garchar neu gadwad mewn sefydliad troseddwy ifanc am fwy na 6 mis a hyd at a chan gynnwys 30 mis (2½ flynedd)	Cyfanswm hyd y ddedfryd (gan gynnwys y cyfnod ar drwydded) plws 4 blynedd	Cyfanswm hyd y ddedfryd (gan gynnwys y cyfnod ar drwydded) plws 2 flynedd
Dedfryd o garchar neu gadwad mewn sefydliad troseddwy ifanc am fwy na 30 mis (2½ flynedd) a hyd at 48 mis (4 blynedd)	Cyfanswm hyd y ddedfryd (gan gynnwys y cyfnod ar drwydded) plws 7 mlynedd	Cyfanswm hyd y ddedfryd (gan gynnwys y cyfnod ar drwydded) plws 3½ blynedd
Dedfryd o garchar neu gadwad mewn sefydliad troseddwy ifanc am fwy na 48 mis (4 blynedd) neu ddedfryd amddiffyn y cyhoedd	Byth yn darfod	Byth yn darfod

Mae rhestr lawn o gyfnodau adsefydlu'r holl ddedfrydau ar gael yma:
www.nacro.org.uk/roa

Gwasanaeth Cyngor Adsefydlu Nacro
Ffoniwch 0300 123 1999, Llun-Gwe 9am-5pm Ebst: helpline@nacro.org.uk

Elusen gofrestredig rhif 226171.



changing lives
reducing crime